# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher 25.09.24 - 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol**: David Griffiths - Cadeirydd (DG), Geraint Edwards – Is Gadeirydd (GE), Huw Davies (HD), Keith Carroll (KC), Ian Williams (IW), Geraint Micah (GM) a Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Louise Hughes - Cynghorydd Sirol (LH), Nicola Roberts (NR), Jane Lawrence (JL), Jenny Warne (JW) Megan Griffiths (MG).

2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2.1 **Datgan Diddordeb**: **Dim.**

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**: cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **17.07.24** yn gywir.
**Cynnig:** KC **Eiliwyd:** HD **Arwyddwyd:** DG.

3. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 17.07.24**

a) Coeden Onnen yn y Cae Chwarae – rhoddodd DG ddiweddariad nawr bod arolygydd Parc Cenedlaetol Eryri wedi ymweld â'r safle a darllenodd JJ yr e-bost a dderbyniwyd ganddo. Cynigiodd GE gael gwared ar y goeden ond oherwydd sylwadau Rhydian Roberts (Arolygydd Coed Y Parc) nid yw hynny'n opsiwn ar hyn o bryd.
Mae Mr Roberts wedi pennu "Dosbarthiad Iechyd 2" ar y goeden - sy'n gofyn am fonitro a chymharu'r goeden yn awr ac yn ystod gwanwyn 2025, cyn cymryd camau pellach. Fodd bynnag, gellir cael gwared ar ganghennau marw. Mae'n ystyried bod hanner y bonyn yn iach iawn ac mae'r hanner arall yn dangos arwyddion o wywiad. Cytunwyd yn unfrydol bod angen gwneud rhywfaint o waith yn gynnar yn hytrach nag yn hwyrach, gan ei fod yn fater o ddiogelwch ac o bosibl yn beryglus i eiddo cyfagos. Felly, gofynnwyd i JJ gael dyfynbrisiau gan nifer o feddygon coed/arborwyr ar gyfer y gwaith sydd ei angen nawr. JJ i anfon e-bost pellach at John Hackney a rhoi diweddariad. Nodwyd bod gan Rhydian Roberts bryderon ynghylch coeden ar dir cyfagos – sef yn Hendre Hall - a oedd angen gweithredu ar unwaith.
JJ i ysgrifennu at Mei Black i roi gwybod iddo.

b) **Ceg yr Afon Gwril (mynediad i'r traeth)** – Cadarnhaodd HD fod y gwaith wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, mynegodd bryder ei fod yn anghynaladwy ac y byddai materion pellach yn codi yn y dyfodol. Roedd HD o'r farn mai dyma'r tro olaf yr oeddem yn debygol o wneud y gwaith a bod angen canolbwyntio ar ffyrdd eraill o sicrhau mynediad i'r traeth, efallai drwy brynu tir cyfagos. Nid yw JJ wedi derbyn anfoneb am y gwaith eto, ond ar dderbyniad a thaliad i gysylltu ymhellach gyda Chyngor Gwynedd am eu cyfran o'r gost.

c) **Arolwg or Meinciau** – GE wedi gwneud arolwg or holl feinciau a nodwyd bod angen sandio a phaentio pob mainc, sef gwaith ar gyfer Mawrth/Ebrill 2025. Roedd angen dau bren newydd ar gyfer y fainc ger y lloches bws yn Rhoslefain. Dywedodd KC y byddai'n hapus i adnewyddu'r rhain a darparu anfoneb i'r Cyngor Cymuned am y pren.
JJ i drefnu dyfynbrisiau gwanwyn nesaf ar gyfer y gwaith ailaddurno.

d) **Matiau diogelwch yn y Cae Chwarae** – Gan nad oedd adroddiad ROSPA wedi nodi bod hyn yn fater brys neu fod angen un newydd, bydd hyn yn cael ei adolygu a'i drafod eto maes o law. Yn y cyfamser, byddwn yn edrych ar yr amgylchoedd pren a gweld a oes modd eu hadnewyddu'n hawdd.

e) **Mater traffig Rhoslefain** - dim gweithred pellach ar hyn o bryd, gan fod Heddlu Gogledd Cymru yn monitro'r sefyllfa.

f) **Gordyfiant ar ymyl y ffordd ger Fferm Tydfarch** – Cyngor Gwynedd bellach wedi gwneud y gwaith.

g) **Cae Chwarae Llwyngwril** – Mae'r rheiliau angen sylw yn ogystal a'r gordyfiant o amgylch y parc.
Bydd HD a GE yno dydd Sadwrn 28.09.24 i dacluso a chlirio, gyda chymorth gan GM i gael gwared ar ysbwriel.
JJ i anfon e-bost at yr aelodau eraill oedd yn absennol o'r cyfarfod, i ofyn a fyddent yn fodlon cynorthwyo.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn:**

a) **Bocsys Ailgylchu TeraSycl** - Derbyniwyd e-bost gan Pat Griffiths ynglŷn â bocsys ailgylchu TeraSycl ar gyfer pecynnau dal tabledi a meddyginiaeth. Bawb yn gytun y dylid holi Cyngor Gwynedd os oes modd gosod blwch or fath yn y Ganolfan Ailgylchu yn Nolgellau. JJ i gysylltu a Chyngor Gwynedd.

b) **Llwybr Cyhoeddus/Ffordd Ddiddosbarth (Sunbeach)** – Darparodd JJ copïau o'r e-bost a dderbyniwyd gan Paolo, Green Lanes Association. Ar ôl peth trafodaeth, cytunodd pawb y dylai JJ ysgrifennu a gwneud cwyn swyddogol i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd, a chopi i fynd hefyd i Brif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri.

c) **Padiau Diffibriliwr Rhoslefain a blwch newydd Llwyngwril** – cytunodd pawb fod angen gwneud trefniant ffurfiol ynglyn a delio gyda'r mater o'r padiau newydd sydd eu hangen. Awgrymwyd fod hi'n anodd i'r Cyngor Cymuned drefnu hyn gan ei bod ond yn cyfarfod unwaith y mis, (a dim yn cwrdd ym Mis Ionawr nag Awst).
JJ i wahodd Chris Lawrence i'r cyfarfod nesaf i geisio cytuno ar gynllun gweithredu.
Nodwyd y sylwadau yn e-bost JL – 12.08.24 - a bydd y manylion yn cael eu cadw ar ffeil nes bod y blwch diffibriliwr newydd wedi'i brynu.
Derbyniwyd e-bost yn awgrymu symud y diffibriliwr o faes parcio Y Ganolfan, i safle'r Siop yn y pentref. Gwrthodwyd y cynnig yma yn unfrydol gan fod y diffibriliwr yn maes parcio Y Ganolfan yn werthfawr iawn i ddefnyddwyr Y Ganolfan, llawer ohonynt yn oedrannus. Hefyd, gyda'r cynnig o roi diffibriliwr newydd ar Y Grîn a ger Stad Gwastagoed - nid oedd wir angen un arall ger y Siop.

6. **Materion Cynllunio: Dim.**

7. **Adroddiad Ariannol:**
   a) **Adroddiadau Ariannol Gorffennaf ac Awst 2024** – Cytunwyd yr adroddiadau yn gywir ar ol gwneud dau newid.
   **Cynnig:** IW **Eilio:** HD **Arwyddwyd:** DG.
   b) **Taliadau** – Sieciau wedi eu harwyddo - Gyflog y Clerc, Cyngor Gwynedd (Archwiliadau), Glenda Edwards (Cyfieithu cofnodion misoedd Ebrill, Mai, Mehefin a Gorffennaf), Cyrsiau Hyfforddi a David Griffiths (Cynnal a Chadw).

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr: Dim.**

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol: Dim.**

10. **Unrhyw Fater Arall:**

- Roedd MG wedi cadarnhau pa gyrsiau hyfforddi yr oedd ganddi ddiddordeb ynddynt a chymeradwywyd tri.
  **JJ** i holi os oes unrhyw fwrsariaeth ar gael, ac a oes rhai or cyrisau yma ar gael am ddim gan fod gan y cyngor hawl i ddau am ddim yn y flwyddyn.
- Cododd HD destun y Wal Derfyn rhwng Llwyngwril a Friog – nid oedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn unrhyw ddiweddariad fel oedd Cyngor Gwynedd wedi gaddo i'r Cyngor Cymuned erbyn mis Awst.
  **JJ** i gysylltu eto gyda Steffan Jones, Cyngor Gwynedd.
- Cododd HD destun y "lay by" ym mynedfa'r pentref, ger Pont y Cletwr, a oedd yn dal i fod wedi gordyfu'n ddifrifol
  **JJ** i gysylltu ag Adrian Williams, Cyngor Gwynedd, eto.
- Soniodd GE am or-yrru drwy'r pentref – doedd fawr neb yn cadw at yr 20 mya.
  **JJ** i gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru.
- Cododd GE y pwnc o'r Coed Nadolig. Mae KC wedi adeiladu ffrâm fetel a fydd yn barod ar gyfer eleni. Felly, dim ond un goeden 12 troedfedd y bydd angen archrebu.
  **JJ** i gysylltu â Geraint Evans 07792 271842 (Gwanas) am y gost.
- Dywedodd KC mai Dydd Sadwrn 05.10.24 oedd y dyddiad newydd ar gyfer chwistrellu y "Japaneese Knotweed" yn y pentref. Roedd angen helpwr. KC yn cadarnhau y byddai yn bresennol trwy gydol y chwistrellu.
- Dywedodd GE fod arwydd ar yr offer ffitrwydd yn y Cae Chwarae wedi dod i lawr, ac y byddai'n ailosod tra yn clirio y parc Dydd Sadwrn 28.09.24.
- Soniodd IW am y posibilrwydd fod Gyngor Gwynedd i gau y ffordd yn Rhoslefain ar 06.10.24 am un diwrnod, ond hyd yn hyn nid oedd unrhyw hysbysiad o'r gwaith na'r dargyfeiriad wedi'i dderbyn.
- Soniodd JJ fod Cyngor Cymuned Bryncrug yn edrych am wefan newydd, ac wedi cael manylion cwmni yn Bala sydd Eisoes wedi dylunio wefan i Cynghorau Cymuned, Llanegryn ymhlith eraill. Darparwyd manylion y gost i weld a oedd unrhyw ddiddordeb gan fod gwefan newydd wedi'i thrafod ers peth amser. Roedd yr holl brisiau a gytunwyd arnynt yn rhesymol, a gofynnwyd i JJ gael rhagor o wybodaeth h.y. a oedd modd trosglwyddo gwybodaeth o'n gwefan bresennol, a oedd cael y wefan yn ddwyieithog yn golygu bod angen prynu rhagor o dudalennau, a chadarnhad o'r hyn y mae'r cwmni'n ei ddarparu i'r Cyngor Cymuned, mewn perthynas ag uwchlwytho dogfennau ac ati.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 09.10.24 - am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd** ........................................ **Dyddiad** 9/10/24.